**Ymateb Estyn ar y cynnig i ymestyn y capasiti yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 175 i 205 o leoedd, o fis Medi 2026, gyda 45 lle ychwanegol yn 2030/31 ar gyfer capasiti o 250 o ddysgwyr**

## Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

## Crynodeb / Casgliad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig ymestyn y capasiti yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 175 i 205 o leoedd, o fis Medi 2026, gyda 45 o leoedd ychwanegol yn 2030/2031 ar gyfer capasiti o 250 o ddysgwyr. Yn ychwanegol, ac ochr yn ochr â hyn, nododd y Cyngor y byddai angen symud darpariaeth ôl-16 yn barhaol o brif safle'r ysgol a datblygu darpariaeth fwy parhaol yn Vision House Glynebwy (defnyddir ar hyn o bryd fel lleoliad dros dro ar gyfer disgyblion er mis Mai 2025). Mae'r cynnig yn mynd i'r afael yn benodol â materion digonolrwydd o ran nifer y lleoedd sydd ar gael i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn y Fwrdeistref, ac mae'n debygol o wella safon y ddarpariaeth yn yr ardal hon.

## Disgrifiad a manteision

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno rhesymeg addas yn amlinellu'r rhesymau dros y cynnig.

Mae Ysgol Arbennig Pen y Cwm yn darparu ar gyfer dysgwyr o oedran 3-19, sydd ag ystod eang o anableddau ac anawsterau sy'n amrywio o anawsterau dysgu difrifol (ADD) i anawsterau dysgu dwys a lluosog (ADDLl), anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA), disgyblion sydd â nam ar y golwg (NG), a disgyblion sydd â nam ar y clyw (NC). Mae sawl cyfleuster arbenigol ar gael ar y safle (pwll hydro, ystafelloedd synhwyraidd, ystafell therapi adlam). Mae gan yr ysgol gyfleusterau ychwanegol hefyd, sy'n cynnwys ystafelloedd ar gyfer technoleg bwyd, gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg a chelf.

Mae niferoedd y disgyblion a'r galw am leoedd yn Ysgol Arbennig Pen y Cwm wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf, sy'n golygu bod yr ysgol wedi'i gordanysgrifio, a darpar ddisgyblion ar y rhestr aros. Mae'r Cyngor wedi cynnal

dadansoddiad addas o leoliadau anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn y Fwrdeistref sy'n cynnwys model defnyddiol o niferoedd amcanestynedig hyd at 2039.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod yn briodol effaith y cynnig ar y ddarpariaeth ôl-16. Mae cynnig priodol i adeiladu ar y trefniadau presennol ar gyfer y ddarpariaeth hon a'u datblygu ymhellach ar safle cyfagos, wedi'u cynnwys (tua hanner milltir o'r ysgol).

Mae'r Cyngor wedi darparu disgrifiad o'r cynnig sy'n addas o fanwl. Mae wedi cyflwyno cefndir i'r cynnig ac wedi cynnwys amserlen dybiedig ar gyfer gweithdrefnau statudol. Mae'r cynllun wedi'i rannu'n addas yn ddwy ran, a'r naill a'r llall yn cynnwys ffactorau ychwanegol addas y bydd angen eu gweithredu i gefnogi'r cynigion. Mae'r rhain yn cynnwys y lleoedd ychwanegol ar brif safle'r ysgol, ynghyd â gwella'r cyfleuster dros dro ar gyfer darpariaeth ôl-16 yn Vision House Glynebwy.

Mae'r Cyngor wedi amlinellu manteision ac anfanteision y cynnig hwn yn briodol. Mae'n cynnwys rhesymeg strategol glir ar gyfer ad-drefnu'r ddarpariaeth, gyda'r bwriad i gynnal neu wella safonau addysg ledled yr ardal, a sicrhau bod dysgwyr yn gallu elwa ar gwricwlwm eang a chytbwys ym mhob cyfnod. Mae hefyd yn ymddangos bod y cynnig yn rhoi cyfleoedd i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu trwy ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau, trefniadau arwain a rheoli cryfach, a defnyddio staff yn well; ond nid yw'r rhain yn cynnwys manylion am sut byddant yn cael eu cyflawni. Yn ychwanegol, mae manteision posibl o ran amgylcheddau dysgu gwell a chynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy, tra'n ystyried hygyrchedd, trefniadau teithio dysgwyr ac anghenion grwpiau bregus, yn cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw'r Cyngor wedi nodi unrhyw anfanteision yn gysylltiedig â'r cynnig hwn.

Mae'r Cyngor wedi amlinellu risgiau y mae wedi'u nodi yn gysylltiedig â'r cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliad a risg ariannol o ran sicrhau darpariaeth addas 'y yu allan i'r sir' ar gyfer dysgwyr, peidio â mynd i'r afael â safbwyntiau rhanddeiliaid, cyflwyno'r cynllun neu'r gyllideb yn wael, capasiti annigonol ar gyfer galw yn y dyfodol ac allyriadau carbon deuocsid. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno lliniaru sy'n ymddangos yn addas yn erbyn y risgiau posibl hyn.

Mae'r Cyngor wedi ystyried ystod o opsiynau amgen, yn cynnwys cynnal y sefyllfa bresennol, creu adeilad newydd neu adnewyddu adeiladau presennol yr ysgol yn fewnol. Mae'r cynnig hefyd yn ystyried rhestr fer addas o opsiynau. Mae'r Cyngor wedi darparu rhesymau addas dros ddiystyru opsiynau eraill sy'n ymddangos yn deg a phriodol.

Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith y cynnig ar drefniadau cludiant. Mae'r Cyngor wedi sefydlu proses ddefnyddiol er mwyn asesu anghenion teithio plant y gallai fod angen cludiant ADY arnynt ym mholisi cludiant o'r cartref i'r ysgol ac yn y sector ol-16 2026/27. Mae'r Cyngor hefyd wedi rhoi ystyriaeth addas i leoliad yr ysgol bresennol a'r seilwaith traffig. Mae'n ymddangos bod hyn yn deg a rhesymol, yn enwedig wrth ystyried anghenion disgyblion ag ADY.

Mae'r Cyngor wedi darparu asesiad byr o'r effaith ar y Gymraeg yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Mae'n datgan nad yw'r cynnig hwn yn effeithio ar nifer ac argaeledd y lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg o fewn Blaenau Gwent. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl y bydd unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig hwn. Mae'r cynigion yn datgan bod "y Gymraeg yn cael ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion arbennig yn unol â'r cwricwlwm. Felly, ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar Fesur y Gymraeg (2011)". Fodd bynnag, mae'n ymddangos na roddir unrhyw ystyriaeth i gynllun strategol Cymraeg mewn addysg y Cyngor, deddf yr iaith Gymraeg (2025) na chwricwlwm i Gymru.

Mae'r Cyngor wedi darparu asesiad o'r effaith ar y gymuned yn rhan o'r cynnig hwn. A hithau'n ysgol arbennig, mae'r ffocws ar blant ag anghenion arbenigol cymhleth, felly disgwylir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol iawn ar iechyd a lles y rhai sy'n mynychu, a fydd yn gallu elwa ar gyfleusterau, addysg a gofal o'r safon uchaf. Ceir asesiad addas a pherthnasol o'r effaith ar y gymuned.

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i oblygiadau ariannol y cynnig. Mae'n datgan bod cyllid ysgolion yn cyd-fynd â'r polisi ariannu teg o ran cyllid categori ysgolion arbennig. Ceir cyfeiriad addas at y costau i'r Cyngor o ran addysgu disgyblion ag ADY y tu allan i'r awdurdod. Trwy greu lleoedd ychwanegol o fewn y sir, byddai'r gost hon yn gostwng. Er bod costau cyfalaf yn fach iawn o ran cynyddu capasiti lleoedd ar y safle presennol (rhan 1), mae costau cyfalaf sylweddol (rhwng £8m ac £15m yn dibynnu ar yr opsiwn a ddewiswyd) yn gysylltiedig â rhan 2 sy'n amodol ar gymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf o fewn y Cyngor. Mae'r costau cyfalaf gwirioneddol yn gyffredinol iawn ac nid ydynt yn cynnwys manylion penodol. Mae'n ymddangos nad oes cyfeiriad at opsiynau amgen os na chaiff y rhaglen gyfalaf ei chymeradwyo. Ceir cyfeiriadau addas at y goblygiadau iechyd a diogelwch i gam adeiladu posibl rhan 2 y cynnig.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'n ymddangos bod y Cyngor wedi ystyried ansawdd deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol yn ddigonol. Mae wedi cynnwys deilliannau adroddiad arolygiad diweddaraf Estyn yn 2024 ac wedi cynnwys agweddau addas ar yr adroddiad ar gyfer pob un o'r pum maes arolygu. Ceir cyfeiriad addas hefyd at yr argymhellion a amlinellir o fewn yr adroddiad. Mae'r Cyngor hefyd wedi ystyried effaith y cynnig ar ansawdd a safonau mewn addysg, yn cynnwys adrannau ar wahân ar ddysgu; lles ac agweddau at ddysgu; addysgu a phrofiadau dysgu; gofal, cymorth ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Er bod pob un o'r adrannau'n ymddangos yn deg a rhesymol, mae'n ymddangos nad ydynt yn cynnwys manylion ynglŷn â'r manteision arfaethedig i'r agweddau addysgol ar y cynnig, yn enwedig profiadau dysgu a lles disgyblion ag ADY.

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad addas o'r effaith ar gydraddoldeb i ystyried effaith y cynnig ar y nodweddion gwarchodedig. O ganlyniad i'r asesiad hwn, mae wedi dod

i’r casgliad y byddai’r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar anabledd fel nodwedd warchodedig ac effaith niwtral ar yr holl nodweddion gwarchodedig eraill.

Mae’r Cyngor hwn yn datgan y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddiwallu anghenion y disgyblion hyn trwy fynd i’r afael â materion digonolrwydd yn gysylltiedig â nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer plant ag ADY yn y Fwrdeistref. Bydd o fudd i ddisgyblion ag anawsterau dwys neu luosog oherwydd bydd eu plant yn cael yr addysg o fewn y Fwrdeistref Sirol y maent yn byw ynddi, a bydd yn darparu mannau dynodedig yn yr ysgol ar gyfer partneriaid allweddol fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gynnig cymorth unigol ar gyfer dysgwyr. Mae’n ymddangos bod hyn yn rhesymol. Mae’r Cyngor yn datgan yn briodol y bydd y cyfleusterau ar y prif safle yn parhau i fod ar gael i ddisgyblion yn y ddarpariaeth ôl-16.

Mae’r Cyngor wedi ystyried y trefniadau pontio i’r ddarpariaeth ôl-16 sydd wedi’i lleoli yn yr ysgol yn briodol, er nad yw’r manylion yn y cyfnod pontio ar gyfer diwallu anghenion penodol disgyblion yn glir.

Mae’r Cyngor wedi cynnwys asesiad addas o’r effaith ar staff, gan ddatgan na fydd unrhyw effaith ar staff presennol, ac y gallai staff ôl-16 gael cyfleoedd newydd yn yr adeilad newydd o fewn rhan 2. Mae’n datgan y bydd cymorth adnoddau dynol i’r corff llywodraethol gyda phenodiadau newydd, er nad yw’r cynnig yn amlinellu cynlluniau i benodi tîm staff â medrau a phrofiad perthnasol ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag ADY.